PDF Complete
Your complimentary use period has ended. Thank you for using PDF Complete.
Click Here to upgrade to Unlimited Pages and Expanded Features

**(Heriol, eitem 1)**

1. Mae pennaeth y cwmni teledu'n dweud bod rhaid i'r rhaglen fod yn ffeithiol – rhaid iddi beidio â dangos ochr, ond mae ganddo deimladau cryf am y digwyddiad.

   a. Sut mae'n teimlo am y digwyddiad?

   b. Sut rydych chi'n gwybod hyn?

2. Rydych chi'n aelod o **Bwyllgor Cofio Tryweryn** ac rydych chi'n dechrau trefnu digwyddiadau i gofio am foddi'r Cwm ymhen tair blynedd.

   a. Mewn grR̀p, rhaid i bawb feddwl am syniadau ynglR̂n â sut i gofio'r digwyddiad.

   b. Rhaid ysgrifennu'r syniadau ar 'post-it'.

   c. Fesul un, rhaid i bawb roi ei 'post-it' ar ddarn mawr o bapur a rhaid siarad am y syniadau.

   ch. Ar ôl trafod y syniadau, rhaid penderfynu ar y syniad gorau.

   d. Yna, rhaid meddwl am y manylion.
   - Beth yn union fydd yn digwydd?
   - Ble?
   - Pryd?
   - Sut bydd y digwyddiad yn cael ei hysbysebu?
     ac ati.